Newyddlen Rhifyn 1 Mai 2007

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Dyma rifyn cyntaf newyddlen CCAUC ar ei newydd wedd. Mae'n rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau newydd a diweddar ym maes cyllido addysg uwch yng Nghymru ac yn darparu cysylltau i eitemau newyddion a chylchlythyrau. Crynhoir hefyd rai o'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Cliciwch ar yr eitemau sydd o ddiddordeb i chi i fynd i'n gwefan a chael rhagor o wybodaeth.

Yn y rhifyn hwn

➔Cyhoeddiad ar Grant Rheolaidd 2007/08	➔Llythyr Cylch Gwaith 2007-08	➔Cyfarfodydd o Gyngor CCAUC	➔Aelodau Newydd o'r Cyngor	➔Ymgynghoriad ar y premiwm cyfrwng Cymraeg
➔Adolygiad o bolisi ymchwil	➔ Rhwydwaith Fideo Cymru	➔Cynllun Iaith Gymraeg CCAUC	➔Ymgynghoriad ar y gwerthusiad cenedlaethol o weithgareddau ehangu mynediad a gyllidir a'r cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach	➔Y prosiect targedu a monitro egni a dŵr
➔Arian ychwanegol i AG-DdC o'r Gronfa Datblygu Strategol	➔Canolfan newydd i astudio dwyieithrwydd	➔Cyfrol Flynyddol o Ystadegau 2004/05	➔ Cynllun Cydraddoldeb i'r Anabl CCAUC	➔Cynllun Cydraddoldeb Rhyw CCAUC

Cenhadaeth CCAUC Ein cenhadaeth yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Cyhoeddiad grant ar gyfer 2007/08

Cyhoeddwyd dyraniadau grant o dros £424m ar gyfer addysg uwch yn 2007/08.

Y cynnydd cyfartalog mewn dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer sefydliadau addysg uwch (SAUau) o'u cymharu â grantiau 2006/07 yw 3.84% yn nhermau arian. Y cynnydd mwyaf ar gyfer SAU unigol yw 5.87%.

Yn y dyraniadau grant, mae'r cyhoeddiad yn cadarnhau:

- £3m yn ychwanegol tuag at gwrdd â chostau economaidd llawn ymchwil a gyllidir gan elusennau;
- cynnydd pellach o ryw 20% yn y Gronfa Trydedd Genhadaeth – mae'r gronfa wedi dyblu mewn maint dros gyfnod o dair blynedd;
- cymorth pellach i gwrdd â chostau cyfraniadau cyflogwr ychwanegol i Gronfa Bensiwn yr Athrawon; trosglwyddir yr arian hwn i'r craidd yn ystod y ddwy flynedd nesaf;
- ymrwymiad CCAUC i weithgaredd ffranseis drwy ei gadw'n flaenoriaeth yn y model cyllido; a
- chefnogaeth CCAUC i ddatblygu ymchwil drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil.

←nôl

Mae CCAUC wedi derbyn ei Lythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2007-08 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn rhoi arweiniad i ni ar sut i ddosbarthu cymorth grant y flwyddyn ariannol 2007-08 a bydd yn dylanwadu ar y gweithgareddau a gynhwysir yn ein Cynllun Corfforaethol a Gweithredol nesaf, a gyhoeddir yn y Gwanwyn.

←nôl

Cyfarfodydd Cyngor CCAUC

Yn 2007, cyfarfododd y Cyngor ar 26 Ionawr, 23 Mawrth a 4 Mai. Mae'r newyddlen hon yn cynnwys newyddion am rai o'r prif bynciau a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor ar 29 Mehefin.

Croesawyd Jane Davidson AC, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd, i'r cyfarfod ar 23 Mawrth.

←nôl

Aelodau newydd o'r Cyngor

Cyfarfod mis Ionawr y Cyngor oedd y cyntaf a fynychwyd gan ein dau aelod newydd, Yr Athro Mari Lloyd-Williams a Mr Ken Richards.

Ymunodd Mrs Pauline Thomas â ni ym mis Mai.

←nôl

Ers 2003 mae'r **Athro Lloyd-Williams** wedi dal cadair bersonol yng Nghyfadran Meddygaeth Prifysgol Lerpwl, ble y mae hefyd yn ymgynghorwr mewn meddygaeth liniarol ac yn Gyfarwyddwr un o gwricwla addysg feddygol gymunedol mwyaf y DU.

Bu **Mr Richards** yn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac mae'n Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd.

Dechreuodd **Mrs Thomas** ar ei swydd bresennol fel Prifathrawes Ysgol Gyfun Abertyleri ym mis Ionawr 2002. Bu'n aelod etholedig o Gyngor Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) ers 1999 a chyn hynny bu'n gwasanaethu fel ei Swyddog Aelodaeth cyn cael ei hethol yn Ysgrifennydd Mygedol yn 2005.

←nôl

Ymgynghoriad ar y premiwm cyfrwng Cymraeg yn dod i ben yn gynnar yn 2007

Mae'r ymgynghoriad hwn bellach wedi dod i ben. Gwahoddwyd ymatebion i:

- Y trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg; a
- Sut i gofnodi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Cyngor y dylai'r trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg gael ei ostwng i **ddau gredyd y modiwl o 2007/08.**
Adroddir ar yr ymatebion i'r ail gwestiwn yn ystod y misoedd i ddod.

Adolygiad o bolisi ymchwil

Rydym newydd gwblhau ymgynghoriad ar adolygiad o'n polisi ymchwil. Bydd cael dealltwriaeth drylwyr o'n nodau polisi yn y maes hwn yn ein helpu i ddiwygio ein dull cyllido ymchwil yn sgil canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) 2008.

Yn y cylchlythyr ar yr Adolygiad o Bolisi Ymchwil gwahoddwyd ymatebwyr i gynnig sylwadau ar ddatganiad diwygiedig o'n nodau polisi ymchwil ac i roi ystyriaeth gyffredinol i'r fframwaith cyllido.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar Ddydd Gwener, 27 Ebrill 2007.

←nôl

Rhwydwaith Fideo Cymru

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar effeithiolrwydd Rhwydwaith Fideo Cymru ym mis Chwefror.

Prosiect arloesol yn cynnwys sefydliadau addysg bellach ac uwch oedd hwn, a'i nod oedd sefydlu o leiaf 80 o stiwdios fideo wedi'u rhwydweithio a oedd yn cwmpasu pob sefydliad yng Nghymru. Rhoddodd yr adroddiad ystyriaeth i fanteision y rhwydwaith a gwnaeth argymhellion ar gyfer buddsoddi ac ehangu yn y dyfodol.

Cymeradwyodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mai i barhau i gyllido'r project.

←nôl

Cynllun Iaith Gymraeg:

Cynhyrchwyd ein hail adroddiad cydymffurfio blynyddol ar ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ddiweddar.

At ei gilydd, rydym wedi gwneud cynnydd cyson ers mis Mai 2006. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan aelodau'r staff sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd gyda'n strategaeth sgiliau ieithyddol. Rydym yn arbennig o fodlon ar nifer y staff sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn yr iaith.

←nôl

Ymgynghoriad: Gwerthusiad Cenedlaethol o Weithgareddau Ehangu Mynediad a Gyllidir a'r Cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach:

Ymgynghoriad roedd hwn ar gasgliadau'r adroddiad *Evaluation of the widening access activities and the Reaching Wider Initiative in Welsh Higher Education Institutions*.

Edrychodd yr adroddiad ar ddatblygiad, cynnydd ac effaith gweithgareddau ehangu mynediad a gyllidir a'r cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach.

Rhoddodd yr adroddiad ystyriaeth hefyd i'r newidiadau posibl y gellid eu cyflwyno i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at agor cyfleoedd addysg uwch i bob rhan o gymdeithas.

Cwblhawyd yr ymgynghoriad hwn ar Ddydd Gwener 20 Ebrill 2007.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion wrth lunio ein cyngor terfynol ar ddatblygu polisi ehangu mynediad, a gyflwynir i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Mehefin 2007.

←nôl

Y Prosiect Targedu a Monitro Egni a Dŵr

Dyrannwyd £3.8M i brifysgolion a cholegau yng Nghymru i osod system integredig o is-fesuryddion a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i ddatblygu targedu a monitro ar gyfer o leiaf 90% o ddefnydd egni a dŵr. Bydd y mesuryddion yn anfon gwybodaeth am ddefnydd i wasanaeth swyddfa egni a fydd yn ei dro yn gweithio gyda rheolwyr egni a'r Ymddiriedolaeth Carbon i leihau defnydd egni ymhellach.

Bydd modd defnyddio unrhyw arian sy'n weddill ar brosiectau ychwanegol i arbed egni a dŵr a lleihau allyriadau carbon.

←nôl

£5.3m i gryfhau safle Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru

Bydd £5.3m ar gael i Athrofa Addysg Uwch Gogledd-Ddwyrain Cymru i'w helpu i gryfhau ei safle fel sefydliad addysg uwch Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Bydd y buddsoddiad, o Gronfa Datblygu Strategol CCAUC, yn cael ei ryddhau dros gyfnod o dair blynedd a bydd yn helpu'r Athrofa ar hyd y ffordd i ennill ei phwerau dyfarnu graddau ei hun – a sicrhau statws prifysgol yn y dyfodol.

←nôl

Canolfan newydd i astudio dwyieithrwydd

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid o £5m ar gael i sefydlu canolfan ymchwil newydd i astudio dwyieithrwydd.

Wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, nod y ganolfan ymchwil newydd fydd meithrin gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ar hyd a lled y byd.

Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar natur y berthynas rhwng dwy iaith, o ran siaradwyr dwyieithog unigol yn ogystal ag yn y gymuned ehangach.

←nôl

Cyfrol Flynyddol o Ystadegau 2004/05

Mae Cyfrol Flynyddol o Ystadegau CCAUC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2004/05, *Ystadegau Addysg Uwch Cymru*, bellach ar gael ar ein gwefan.

Yn 2004/05 yr oedd 133,096 o gofrestriadau AU yn SAUau Cymru – cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol.

Roedd 12% o'r cofrestriadau amser-llawn a 7% o'r cofrestriadau rhan-amser o grwpiau lleiafrifol ethnig. Roedd 3 y cant o'r holl gofrestriadau AU yn cynnwys peth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd canran y myfyrwyr newydd mewn SAUau a oedd yn dod o gefndiroedd dan anfantais yn uwch yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol.

Bu cynnydd o 7% ar 2003/04 yng nghyfanswm yr incwm a dderbyniodd SAUau Cymru yn 2004/05. Bu cynnydd o 6% yng nghyfanswm y gwariant.

Mae cyhoeddiad eleni hefyd yn cynnwys astudiaeth o weithgareddau a nodweddion myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau israddedig nad ydynt yn arwain at radd gyntaf. Roedd 41,623 o gofrestriadau o'r fath yn 2004/05, cynnydd o 11 y cant ers 2000/01. Roeddynt yn fwy tebygol o fod yn astudio rhan-amser (88 y cant o'i gymharu ag 13 y cant) na myfyrwyr gradd gyntaf ac roedd ganddynt gymwysterau uwch na hwy wrth gofrestru (42 y cant yn meddu ar gymwysterau AU o'i gymharu â 12 y cant). Ar ôl ennill eu cymhwyster, roedd 74 y cant mewn gwaith chwe mis ar ôl gadael ac roedd y rheiny a oedd mewn gwaith yn fwy tebygol o fod wedi aros yng Nghymru i weithio na'r rheiny a oedd wedi ennill gradd gyntaf.

←nôl

CCAUC yn lansio ei Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar ddiwedd 2006.

Ein rôl mewn perthynas â'r SAUau yw:

- gweithio'n agos â hwy i sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd cyfartal i'w myfyrwyr a'u staff; a
- monitro gweithredoedd y sefydliadau a pherfformiad y sector. Byddwn hefyd yn darparu cymorth ac arian i wella perfformiad y sector ym maes cydraddoldeb i'r anabl.

Cydnabyddwn hefyd y gwaith y mae angen i ni ei wneud fel cyflogwr i gynyddu amrywiaeth ac i hwyluso cyflogi pobl anabl, ac mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn cwrdd â'n dyletswyddau cyflogaeth.

Gallwch gyrchu ein Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar y **tudalennau Cyfleoedd Cyfartal** yn adran 'Amdanom Ni' ein gwefan, www.hefcw.ac.uk.

←nôl

Ymgynghoriad CCAUC ar y Cynllun Cydraddoldeb Rhyw

Gwahoddwyd sylwadau'n ddiweddar ar ein Cynllun Cydraddoldeb Rhyw y gallwch ei gyrchu drwy ein gwefan. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Ebrill ond gallwch weld y cynllun drafft o hyd ar ein gwefan.

Mae'r cynllun drafft yn nodi sut y byddwn yn cwrdd â'n dyletswyddau cyflogaeth a sut y byddwn yn gweithio gyda'r SAUau, yn monitro eu gweithredoedd ac yn darparu cymorth i alluogi'r sector i wella ei berfformiad ym maes cydraddoldeb rhyw.

←nôl

Cyfarfodydd a digwyddiadau i ddod

14 Mehefin: Seminar ar **strategaethau Dysgu ac Addysgu**, Llandrindod Wells
29 Mehefin 2007: **Cyfarfod Cyngor CCAUC**

←nôl

Cyhoeddiadau yn y dyfodol

Y Strategaeth Corfforaethol a Chynllun Corfforaethol a Gweithredol 2007-10

←nôl

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosbarthu arian i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 o sefydliadau addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol.

←nôl

Drwy system gyllido agored ac eglur, rydym yn canolbwyntio ein cefnogaeth ar gyfer y sector ar:

- hyrwyddo **datblygu dysgu ac addysgu**, yn enwedig ansawdd y profiad o ddysgu;
- buddsoddi mewn sylfaen **ymchwil** gref a datblygu ymchwil rhagorol;
- annog gweithgareddau mewn addysg uwch sy'n cefnogi **busnes a'r gymuned**;
- **ehangu mynediad** i addysg uwch;
- cefnogi datblygu addysg uwch drwy gyfrwng y **Gymraeg**;
- **cryfhau'r sector** - gyda phwyslais ar annog ailgyflunio a chydweithio, cynaliadwyedd ariannol, arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol, datblygiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, a chynnal yr ystâd; ac
- achredu a chyllido darparwyr cyrsiau **hyfforddiant cychwynnol athrawon** yng Nghymru.

←nôl

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru. ←nôl

www.hefcw.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw faterion a nodir yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru, byddwch cystal ag e-bostio **info@hefcw.ac.uk**.

Os nad ydych am dderbyn y newyddlen hon eto, byddwch cystal ag e-bostio **info@hefcw.ac.uk** gan roi'r gair 'dad-danysgrifio/unsubscribe' yn y blwch pwnc.

I gael cyngor ar y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

←nôl

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw